# PARATOI AM ARHOLIADAU YSGRIFENEDIG MEWN NEUADDAU ARHOLI YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

## 1.0 CYN I'R ARHOLIADAU DDECHRAU

1. Dylai’r myfyrwyr wneud rhestr o’r modiwlau lle maent yn disgwyl sefyll arholiad ysgrifenedig ffurfiol mewn neuadd arholi, gan nodi cod y modiwl (e.e. BR10510) a theitl y modiwl (e.e. Chemical Basis of Biology).
2. Ar ôl i Amserlenni Arholiadau'r Brifysgol gael ei chyhoeddi, dylai myfyrwyr edrych yn fanwl arnynt. Nodwch y canlynol:
   (i) Diwrnod, dyddiad ac amser yr arholiadau.
   (ii) Lleoliad yr arholiadau ac, os oes angen, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble mae'r lleoliadau hynny (gweler yr Atodiad isod i gael rhagor o wybodaeth).
   (iii) Rhifau'r seddi ar gyfer y papur arholiad sy'n cael ei gymryd
3. Dylai’r myfyrwyr sicrhau bod popeth y gallai fod eu hangen yn yr arholiad yn barod ganddynt:
   **(i) Offer safonol, er enghraifft pennau ysgrifennu a phren mesur. Noder y dylai pob ateb gael ei hysgrifennu mewn inc ar ddwy ochr i’r papur.**
   **(ii) Cyfrifianellau FX83 neu FX85 yn unig (os ydynt yn cael eu caniatáu yn yr arholiad).**
   **(iii) Eu Cerdyn Aber. Rhaid i’r myfyrwyr gofio dod â’u Cerdyn gyda nhw.**
   **(iv) Caiff y myfyrwyr ddod â diod neu rywbeth i’w fwyta, ond DIM OND potelaid fach o ddŵr a thiwbiau bychain o losin (dim losin gludiog) a ganiateir. Bydd unrhyw fwyd a diod arall yn cael ei gymryd o’ch desg a gallwch eu casglu ar ddiwedd yr arholiad.**
   **(v) Sylwer na chaiff myfyrwyr ddod â geiriaduron i mewn i arholiadau. Mae geiriaduron Cymraeg a Saesneg i’w cael yn y neuadd arholi ac fe ellir eu rhoi i fyfyrwyr i’w defnyddio os bydd y myfyrwyr yn gwneud cais.**
   **(vi) Bydd yr adrannau academaidd yn rhoi gwybod i’r myfyrwyr am unrhyw destunau a ganiateir neu ddeunyddiau eraill y cânt fynd â nhw i mewn i'r lleoliad arholiadau.**
4. Dylai’r myfyrwyr roi amser i ddarllen Llawlyfr Arholiadau Myfyrwyr y Brifysgol a'r canllawiau ar Ymddygiad Academaidd Annerbyniol yn Arholiadau’r Brifysgol (Llawlyfr Arholiadau Israddedigion : Cofrestrfa Academaidd , Prifysgol Aberystwyth*)*.
5. Dylai myfyrwyr gysylltu â'u hadran academaidd os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu os oes angen arweiniad pellach arnynt ar gyfer paratoi at eu harholiadau.

## 1.1 DIWRNOD YR ARHOLIAD

1. Dylai’r myfyrwyr gyrraedd y lleoliad cyn amser dechrau’r arholiad, ac aros y tu allan i'r adeilad tan y bydd aelod o staff yr arholiad yn gofyn iddynt ddod mewn.
2. Cynghorir myfyrwyr yn gryf i beidio â dod ag unrhyw eiddo personol ar wahân i'r hyn sydd ei angen ar gyfer yr arholiadau. Bydd rhaid gadael unrhyw eiddo personol, megis bagiau a chotiau, y tu allan i'r neuadd arholiadau yn unol â chyfarwyddyd staff yr arholiadau. Ni fydd y Brifysgol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw beth sydd ar ôl y tu allan i neuadd arholiad.
3. Ni chaniateir gwisgo hetiau, helmedau, capiau pêl fas nac unrhyw wisg pen arall yn ystod arholiad a rhaid eu rhoi gyda'ch bag a'ch cot y tu allan i'r neuadd arholi. Noder bod gorchuddion pen y mae'n ofynnol eu gwisgo at ddibenion crefyddol neu ddiwylliannol yn cael eu caniatáu yn y neuadd arholi.
4. Cynghorir myfyrwyr i wisgo haenau o ddillad y gellir eu tynnu'n hawdd os oes angen, i sicrhau eu bod yn cadw’n gyfforddus trwy gydol yr arholiad, gan y bydd angen i ni sicrhau y gallwn awyru digon ar y lleoliad trwy gydol yr arholiad.
5. Mae'n bwysig iawn bod unrhyw ddeunydd adolygu neu nodiadau yn cael eu gadael ym magiau’r myfyrwyr neu eu taflu i’r bin a ddarperir, cyn mynd i mewn i'r neuadd arholi. Rhaid peidio â dod â nhw i mewn i’r neuadd arholi.

6. Edrychwch ar yr amserlen arholiadau a'r cynllun seddi, a fydd ar hysbysfwrdd yn lleoliad yr arholiad, a gwnewch nodyn meddyliol o ba ran o'r neuadd arholiadau y byddwch yn eistedd, a lle byddwch yn dod o hyd i'ch papur arholiad.
7. Ar ôl mynd i mewn i'r neuadd arholiad rhaid i fyfyrwyr aros yn dawel a PHEIDIO â siarad ag unrhyw fyfyrwyr eraill tan y byddant wedi gadael y neuadd ar ddiwedd yr arholiad. Os gwneir unrhyw ymdrech i gyfathrebu â myfyrwyr eraill yn y neuadd arholi, gallai hynny gael ei ystyried yn ymddygiad academaidd annerbyniol.
8. Pan fyddant wrth y ddesg, dylai'r myfyrwyr edrych beth yw cyfeirnod a theitl y modiwl sydd ar flaenddalen y papur arholiad, er mwyn sicrhau eu bod yn sefyll y papur arholiad iawn. RHAID PEIDIO â thoi'r papur arholiad drosodd. Dylai'r papur aros lle y mae. Dylai myfyrwyr ofyn i aelod o staff yr arholiadau os oes ganddynt unrhyw ymholiadau.
9. Rhaid gosod ffonau symudol (wedi'u diffodd), unrhyw oriawr glyfar neu 'FitBit', ac unrhyw declynnau electronig eraill (wedi'u diffodd) yn yr hambwrdd cardbord, ac yna dylid cau'r hambwrdd a'i roi ar y llawr o dan y ddesg ac ni ddylid ei gyffwrdd trwy gydol yr arholiad. Dylai cyfrifianellau a ganiateir aros ar y ddesg. Mae cloc mawr wastad yn cael ei roi ym mlaen pob neuadd arholiad er mwyn i fyfyrwyr allu cadw golwg ar yr amser.
10. Dylid rhoi'r Cerdyn Aber Myfyrwyr ar y ddesg.
11. Dylid rhoi unrhyw offer i'r arholiad (pennau ysgrifennu, pensiliau, cyfrifiannell, testunau a ganiateir ac ati), unrhyw losin (nad yw'n ludiog) sydd ganddynt, ar y ddesg o flaen y myfyriwr. Dylai unrhyw botelaid fach o ddŵr gael ei rhoi ar y llawr wrth ochr y myfyrwyr.
12. Dylid rhoi'r wybodaeth ganlynol ar flaenddalen y llyfryn(nau) ateb a'r slip presenoldeb glas:
    i. Ar glawr blaen y llyfryn ateb, ysgrifennwch eich enw yn y gornel dde uchaf a phlygwch gornel y dudalen drosodd ar hyd y llinell ddotiau. Cadwch y gornel hon wedi'i phlygu gan ddefnyddio'r label gludiog wen a ddarperir - gellir felly farcio'r atebion yn ddienw. Yna dylai myfyrwyr ysgrifennu eu Rhif Cyfeirnod Myfyrwyr, Rhif y Modiwl, y Dyddiad y maent yn sefyll yr arholiad, a'u Rhif Sedd (gellir gweld y rhif hwn ar ddesg arholiad y myfyriwr).
    ii. Hefyd, mae angen i fyfyrwyr lenwi'r 'Slip Presenoldeb' glas a geir ar eu desg arholiadau, a nodi eu Cyfenw, Enw(au) Cyntaf, Cyfeirnod Myfyrwyr, Maes Pwnc, Cod y Modiwl, y Dyddiad y maent yn sefyll yr arholiad a'u Rhif Sedd. Bydd staff yr arholiad yn casglu'r Slipiau Presenoldeb i gyd yn ystod yr arholiad ei hun, felly rhaid ei lenwi cyn i'r arholiad ddechrau. Ar ôl ei lenwi, dylid gadael y slip presenoldeb ar gornel y ddesg wrth ymyl eu Cerdyn Aber.

**Cliciwch YMA i weld enghraifft o glawr blaen llyfr atebion wedi'i lenwi a slip presenoldeb glas wedi'i lenwi.**

13. Ychydig funudau cyn i'r arholiad ddechrau, darllenir y 'Cyhoeddiadau Cychwyn' ar lafar, yn ddwyieithog. Gwrandewch yn ofalus, a dilynwch gyfarwyddiadau'r cyhoeddiad. Ni ddylid troi'r papur cwestiynau drosodd o dan unrhyw amgylchiadau yn y byd, tan ar ôl i'r 'Cyhoeddiadau Cychwyn' gael eu gwneud ac y dywedir wrthych eich bod yn cael dechrau.

## 1.3 YN YSTOD YR ARHOLIAD

1. Os bydd angen mwy o bapur, defnyddio geiriadur, neu fynd i'r tŷ bach, neu os bydd myfyrwyr yn teimlo'n sâl ac yn dymuno gadael, er enghraifft, rhaid iddynt roi gwybod i aelod o staff yr arholiad yn gyntaf. Ni chaiff myfyrwyr nôl pethau na gadael y neuadd arholiad heb roi gwybod i rywun.

2. Os oes rhywun yn teimlo'n sâl neu'n dymuno gadael neuadd yr arholiad oherwydd salwch, dylent wedyn roi gwybod i'w hadran academaidd cyn gynted ag y bo modd. Bydd angen llenwi Ffurflen Amgylchiadau Arbennig a bydd angen cynnwys tystiolaeth ategol (er enghraifft, llythyr gan feddyg teulu). Dylai'r wybodaeth hon gael ei rhoi i'r adran academaidd cyn gynted â phosibl. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn: 3. Asesu Cynlluniau trwy Gwrs : Cofrestrfa Academaidd , Prifysgol Aberystwyth

## 1.4 AR DDIWEDD YR ARHOLIAD

1. Mae myfyrwyr yn gyfrifol am amseru eu harholiadau eu hunain, ac am sicrhau eu bod yn gwybod faint o'r gloch y bydd eu harholiad yn dod i ben. Nid yw'n ofynnol i staff yr arholiadau roi unrhyw rybuddion wrth i'r amser gorffen nesáu, ond weithiau lle bo modd, efallai y byddant yn gwneud hynny. Mae cloc mawr ar wal pob neuadd arholi.
2. Ar ôl i 'Gyhoeddiad Terfynol' yr arholiad gael ei wneud, ni ddylai myfyrwyr ysgrifennu unrhyw beth ychwanegol yn eu llyfryn ateb. Os gwneir hynny fe allai arwain at achos o ymddygiad academaidd annerbyniol.
3. Ar ddiwedd yr arholiad, dylid gwirio'r holl lyfrynnau ateb a ddefnyddiwyd er mwyn sicrhau bod y manylion personol i gyd wedi'u llenwi ar y flaenddalen a bod y corneli ar ben yr ochr dde wedi'u gludo â'r labeli a ddarperir.
4. Os defnyddiwyd mwy nag un llyfryn ateb, defnyddiwch y tag trysorlys a roddwyd i'w clymu wrth ei gilydd yn ddiogel, oni bai bod y papur arholiad yn rhoi cyfarwyddiadau fel arall.
5. Ar ddiwedd y sesiwn arholiadau, bydd staff yr arholiad yn rhoi gwybod pan fydd pawb yn cael gadael y neuadd arholiadau. Wrth adael y neuadd arholi, cofiwch adael y llyfrynnau ateb ar y ddesg, a gadael yr adeilad yn dawel. Fel rheol, fe gaiff y myfyrwyr fynd â'r papur cwestiynau gyda nhw (oni bai y rhoddir gwybod fel arall).
6. Cofiwch ei bod yn ddigon posibl na fydd myfyrwyr eraill wedi gorffen eu harholiad, felly cadwch yn dawel tan y byddwch ymhell o'r neuadd arholi.
7. Cofiwch fynd â'ch holl eiddo personol oddi yno – os bydd myfyrwyr yn gadael rhywbeth ar ôl, e-bostiwch ugfstaff@aber.ac.uk gan roi manylion am yr hyn sydd wedi'i adael. Gwnawn ein gorau glas i'ch helpu.

## 1.5 GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR SY'N SEFYLL ARHOLIADAU GAN DDEFNYDDIO CYFRIFIADUR

1. Bydd yr adrannau academaidd wedi rhoi gwybod i'r myfyrwyr ymlaen llaw am leoliad yr arholiad.
2. Mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cofio dod â'u Cerdyn Aber ac yn gwybod eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair. Cofiwch hefyd ddod â phen ysgrifennu gyda chi.
3. Bydd y myfyrwyr yn cael eu cyfeirio i'w sedd gan staff yr arholiad wrth iddynt fynd i mewn i leoliad yr arholiad.

## 1.6 GWYBODAETH YCHWANEGOL I FYFYRWYR SY'N SEFYLL ARHOLIADAU MEWN LLEOLIADAU ERAILL

1. Yn achos myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau mewn lleoliadau eraill (e.e. yn eu hadran), byddant fel arfer yn cael cyfarwyddyd pellach ar y lleoliad a'r amseroedd gan eu hadran academaidd cyn i'r arholiadau ddechrau.
2. Yn achos myfyrwyr Gofynion Arholiad Unigol, sy'n cael darpariaeth arholiadau wedi'i drefnu gan Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol (Gwasanaethau Myfyrwyr : Prifysgol Aberystwyth) bydd eu hadran Academaidd yn cysylltu â nhw i gadarnhau lleoliadau arholiadau – cysylltwch â'ch Adran Academaidd yn uniongyrchol os oes gennych ymholiadau'n ymwneud â hyn (Adrannau a Chyfadrannau : Prifysgol Aberystwyth).

## Atodiad

**Lleoliadau'r Prif Neuaddau Arholiad:**

**Cliciwch i weld** Mapiau : Darganfyddwch Aberystwyth , Prifysgol Aberystwyth

**Ble mae Penbryn (Ystafelloedd MedRus)?** – mae'r adeilad hwn ger prif fynedfa campws Penglais ar yr ochr chwith y tu ôl i Dderbynfa'r Brifysgol. Mae prif fynedfa'r adeilad ar yr ochr dde i fwyty TaMed Da.

**Ble mae'r Neuadd Fawr?** - mae'r Neuadd Fawr ar lawr cyntaf Canolfan y Celfyddydau, sef yr adeilad gerllaw adeilad Undeb Myfyrwyr Aberystwyth.

**Ble mae'r Gawell Chwaraeon?** – mae'r adeilad yr ochr draw i Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol (ar y dde) a'r Cae Astro (ar y chwith), ac wrth gerdded i lawr mae’r adeilad i’w weld ar yr ochr chwith.

**Ble mae Ystafell Gyfrifiaduron B23 Llandinam?** - mae'r ystafell gyfrifiaduron hon ar lawr B Tŵr Llandinam ger Melin Drafod Llandinam